**EITEM 5(i)**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 4 Mawrth 2014 |
| **TEITL** | Ymchwil Amcangyfrif Balansau vs Gwir Falansau |
| **PWRPAS** | Adnabod cyfeiriad gwaith priodol |
| **ARGYMHELLIAD** | Gweler rhan 3. |
| **AWDUR** | Dewi R Jones, Pennaeth Addysg |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Sian Gwenllian |

**1. Cefndir**

1.1 Ymhellach i adroddiad ar falansau ysgolion a gyflwynwyd i gyfarfod y Fforwm 25 Mehefin 2013 penderfynwyd cynnal ymchwiliad i'r rhesymau pam fod gwir falansau nifer o ysgolion yn llawer uwch na chynlluniau'r ysgolion hynny wrth sefydlu eu cyllideb.

1.2 Penderfynwyd targedu ysgolion Cynradd ac Arbennig lle'r oedd eu gwir falansau dros £40,000 yn uwch na'u hamcangyfrif o'u balansau ar ôl sefydlu cyllideb, gyda throthwy £70,000 ar gyfer ysgolion Uwchradd.

1.3 Fel y gwelir o'r tabl isod roedd 4 Ysgol Gynradd a 4 Ysgol Uwchradd uwchben y trothwy perthnasol, gyda gwir falansau yr wyth ysgol yma yn £636,997 yn uwch na'u hamcangyfrif o'u balansau yn dilyn sefydlu eu cyllideb am y flwyddyn gyllidol 2012/13.

| | | | | | **AMCAN 1** | **GWIR** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Rhif Ysgol School No** | **Enw Ysgol School Name** | **Balansau Balances 31/03/2012** | **Defnydd balansau i osod cyllideb Use of balances to set the buget for 2012/13** | **Balansau wedi gosod cyllideb Balances after setting the budget 2012/2013** | **Gwir falansau Actual balances 31/03/2013** | **Cynnydd rhwng AMCAN 1 a GWIR** |
| 1 | 2212 | Penybryn | **126,858** | 67,778 | 59,080 | 103,414 | 44,334 |
| 2 | 3005 | Maesincla | **79,535** | 49,800 | 29,735 | 72,464 | 42,729 |
| 3 | 3013 | Llandygai | **54,162** | 31,674 | 22,488 | 67,094 | 44,607 |
| 4 | 3029 | Tregarth | **106,351** | 59,348 | 47,003 | 102,669 | 55,666 |
| 5 | 4003 | Botwnnog | **175,823** | 174,278 | 1,545 | 127,980 | 126,435 |
| 6 | 4009 | Eifionydd | **288,171** | 237,796 | 50,375 | 176,868 | 126,493 |
| 7 | 4037 | Tryfan | **226,223** | 135,638 | 90,585 | 177,021 | 86,436 |
| 8 | 4040 | Glan Y Môr | **256,333** | 116,273 | 140,060 | 250,358 | 110,298 |
| | | | **1,313,455** | **872,585** | **440,870** | **1,077,867** | **636,997** |

**2. Canlyniadau'r Ymchwil**

Prif resymau dros y gwahaniaeth rhwng yr amcan gwreiddiol a'r gwir falansau -

2.1 Cyllideb Staffio - trosiant staff heb ei gynllunio yn y gyllideb (h.y. nid oedd yr wybodaeth ar gael wrth sefydlu'r gyllideb): cyfateb i oddeutu £257,000 o'r gwahaniaeth.

2.2 Cyllideb Ynni – gwir wariant ynni yn llai na'r gyllideb oherwydd agwedd geidwadol hanesyddol o osod maint y gyllideb a hefyd yn y flwyddyn gyllidol yma 'roedd gorddarpariaeth ar gyfer cynnydd ym mhrisiau ynni: cyfateb i oddeutu £118,000 o'r gwahaniaeth.

2.3 Cyllideb Cynlluniau Penodol- cyllidebu ar gyfer cynlluniau penodol yn llithro am resymau gwahanol (gan gynnwys yn y meysydd cynnal a chadw, technoleg gwybodaeth a staffio): cyfateb i oddeutu £83,000 o'r gwahaniaeth.

2.4 Cyllideb Incwm – gwir incwm yn uwch na'r gyllideb incwm sy'n awgrymu agwedd geidwadol wrth sefydlu cyfanswm neu darged incwm yn y gyllideb: cyfateb i oddeutu £22,000 o'r gwahaniaeth.

2.5 Incwm Grantiau – peidio â chydnabod grant wrth sefydlu'r gyllideb. Gwybodaeth am rai grantiau yn cyrraedd yn rhy hwyr i'w sefydlu yn y gyllideb: cyfateb i oddeutu £125,000 o'r gwahaniaeth.

**3. Casgliadau ac Argymellion**

3.1 Gofyn i'r Adran Addysg mewn cydweithrediad â'r Pennaeth Cyllid ddarparu arweiniad penodol i Ysgolion a Chyrff Llywodraethol ar gyfer eu trefniadau sefydlu a monitro cyllideb, gan gynnwys -

3.1.1 Pwysigrwydd gwneud pob ymdrech i sefydlu cyllideb realistig.

3.1.2 Gwneud pob ymdrech i adnabod a chydnabod arbedion ar y cyfle cyntaf.

3.1.3 Adrodd yn ffurfiol i'r Is-bwyllgor Cyllid a/neu i'r Corff Llywodraethol ar gasgliadau adolygiadau monitro ariannol yn ystod y flwyddyn ac ystyried defnydd o unrhyw danwariant gan gofnodi'r penderfyniad.

3.1.4 Adolygu disgwyliadau cyllidol oddi fewn i'r 'Cynllun Datblygu Ysgol' ac adnabod a oes gofyn / cyfle i flaenoriaethu cynlluniau datblygu pan fo adnoddau ariannol ar gael.